



# Wythnos Eco (21-25.5.2018)

# Eco Week (21-25.5.2018)

Byddwn yn cynnal wythnos eco yn yr ysgol rhwng Mai 21—25. Isod, ceir rhai o'r gweithgareddau fydd yn mynd ymlaen yn yr ysgol. Mae disgyblion yr eco bwylgor wedi bod yn gweithio'n galed i feddwl am syniadau felly gobeithiwn yn fawr y bydd hi'n wythnos lwyddiannus. Os ydych chi'n gwneud unrhyw weithgareddau adref yn ystod yr wythnos, cofiwch roi lluniau ar ein cyfrif Twitter (@ygcwmbran) gan ddefnyddio'r hashnod #wythnosecoygc Diolch yn fawr am eich cefnogaeth.

We're holding an eco week in school between May 21- 25th. The eco-committee members have been busy thinking of different ideas so we hope the week will be a success. If you take part in any activities at home during the week, remember to upload your photos on our school Twitter account (@ygcwmbran) and use the hashtag #wythnosecoygc Thank you for your support.

## Gweithgareddau natur:

### Nature activities:

Byddwn yn cymryd rhan yn sialensiau natur yr RSPB yn ystod yr wythnos e.e. edrych ar natur yn yr ardd ac adeiladu cartrefi ar gyfer anifeiliaid ayyb. Byddwn yn rhoi lluniau ar y wefan a Twitter yn ystod yr wythnos.

We'll be taking part in the RSPB's nature challenges during the week e.g. looking at nature in the garden and building homes for animals etc. We'll be uploading photos to Twitter and the website during the week.

## Lleihau defnydd o blastig un tro:

### Reducing single use plastic:

Bydd disgyblion blwyddyn 6 yn mynd i bob dosbarth er mwyn rhoi cyflwyniad ar ein defnydd ni o blastig. Bydd y disgyblion yn meddwl am ffyrdd y gallwn leihau ein defnydd o blastig un tro yn yr ysgol a'n bywydau bob dydd.

Year 6 pupils will be going to every class to give a presentation on our use of plastic. The pupils will think of ways we can reduce our use of single use plastic in the school and in our every day lives.

## Casgliad dillad y gellir eu hailanddefnyddio:

### Reusable clothes collection:

Ar ddydd Iau, Mai 24ain, byddwn yn gwneud casgliad o unrhyw dillad y gellir eu hailanddefnyddio. Mae'r manylion wedi eu hatodi at y llythyr hwn.

On Thursday, May 24th, we'll be collecting any reusable clothes you may have at home - details are attached to this letter. Please don't send them before this date.

## Diwrnod Gwisg anffurfiol:

### Non-uniform Day:

Ar ddydd Gwener, Mai 25ain, mae'r eco-bwylgor wedi penderfynu cynnal diwrnod gwisg anffurfiol (dillad gwyrdd). Bydd hanner yr arian yn mynd i'r RSPB a'r hanner arall i brynu pethau i ddatblygu gardd yr ysgol.

On Friday, May 25th, the eco-committee members have decided to hold a non-uniform day (green clothes). Half the money raised will be going to the RSPB and the other half will go to buy materials to develop our school garden.

## Wythnos cerdded i'r ysgol / Walk to school week:

Rydym yn annog y disgyblion i gerdded i'r ysgol bob dydd, os ydy hi'n saff iddynt wneud hynny, heb anghofio ein hymgyrch beicio / sgwtera i'r ysgol ddydd Mercher.

We're encouraging the pupils to walk to school every day if it's safe for them to do so, not forgetting #WheelieWednesday on Wednesday.